TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Fforwm Rhanbarthol Rhanddeiliaid De Ddwyrain Cymru,

# South East Wales Regional Stakeholder Forum

# 25 Chwefror 2021

## Adroddiad o'r cyfarfod

## Meeting report

# Fforwm Rhanbarthol Rhanddeiliaid De Ddwyrain Cymru

Cyfarfu'r fforwm ar 25 Chwefror 2021, 10:00 – 12:30

### Yn bresennol

## Aelodau'r Fforwm

| | | |
|---|---|---|
| Adrian Field | Cyfarwyddwr Gweithredol, Caerdydd | |
| Alex Clarke | Swyddog Gwybodaeth Trafnidiaeth i Deithwyr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | |
| Andrew Scogings | Pennaeth Cynllunio Strategol, Network Rail | |
| Andy Johns | Dirprwy Bennaeth, Coleg y Cymoedd | |
| Christian Schmidt | Rheolwr Rhaglenni a Phrosiectau Trafnidiaeth, CSF | |
| Clare Cameron | Cyngor Dinas Caerdydd | |
| Clive Campbell | Rheolwr Trafnidiaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | |
| David Beer | Uwch Reolwr Cymru, Transport Focus | 10:55 – 11:45 |
| Enfys Griffiths | Gwasanaethau Trafnidiaeth, Cyngor Bro Morgannwg | |
| Geraint Morgan | Rheolwr Rheilffyrdd Cymunedol, Trafnidiaeth Cymru | |
| James Jackson | Cyngor Dinas Caerdydd | |
| Jason Dixon | Arweinydd Tîm, Polisi Trafnidiaeth, Cyngor Dinas Caerdydd | |
| John Gibson | Swyddog Datblygu Prosiect, Cyngor Dinas Caerdydd | |
| Jonathan Parsons | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | |
| Kevin Mulcahy | Rheolwr Grŵp, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | |
| Kwaku Opoku-Addo | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | |
| Marcus Lloyd | Pennaeth Seilwaith, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | |
| Michelle Roles | Transport Focus | 10:55 – 11:45 |
| Nigel Winter | Rheolwr Gyfarwyddwr, De Cymru, Stagecoach | |
| Owen Williams | First Group | |
| Rebecca Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | |
| Richard Cope | Cyngor Casnewydd | |
| Roger Waters | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | |
| Sam Palmer | NAT Travel | |

## Trafnidiaeth Cymru

| | | |
|---|---|---|
| Alexia Course | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Trafnidiaeth | 10:05 – 10:20 |
| Danielle Hopkins | Llysgennad Cymunedol | |
| David O'Leary | Cyfarwyddwr Masnachol a Phrofiad y Cwsmer | 10:20 – 10:40 |
| Helen Dale (Cadeirydd) | Rheolwr Rhanddeiliaid, De Ddwyrain Cymru | 10:00 – 10:05 |
| Jeremy Whitaker | Arweinydd Twf Rhwydwaith | 10:40 – 10:55 |
| Kelsey Barcenilla (Clerc) | Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned, De Ddwyrain Cymru | |
| Lewis Brencher | Cyfarwyddwr Cyfathrebu | 10:55 – 11:45 |
| Piers Croft | Pennaeth Cyflawni Gwasanaethau | |
| Rhys Giles | Rheolwr Rhaglen | 12:05 – 12:25 |
| Tom Parker | Dadansoddwr Perfformiad Rheilffyrdd | |

## Siaradwyr Allanol

| | | |
|---|---|---|
| Michelle Roles | Transport Focus | 10:05 – 10:20 |
| Tracey Messner | Rheolwr Materion Cyhoeddus, Network Rail | 11:45 – 12:05 |
| Andy Scogings | Pennaeth Cynllunio Strategol, Network Rail | 11:45 – 12:05 |
| James Jackson | Cyfarwyddwr Rhaglen y Diwydiant, Network Rail | 11:45 – 12:05 |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Adam Keen | NAT Travel |
| Alun Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Amy Evans | Colegau Cymru |
| Ceri Stephens | Siambr Fasnach De Cymru |
| Daniel Bowden | Stagecoach |
| Derek Jones | Prifysgol Caerdydd |
| Gareth Stevens | Bws Caerdydd |
| Gemma Hayne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Geraint Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Gwyn Smith | Sustrans |
| Jane Reakes Davies | First Cymru |
| Kevin Sales | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Kieron Rees | Prifysgolion Cymru |
| Kyle Phillips | Cyngor Sir Bro Morgannwg |
| Leanne Waring | Coleg Caerdydd a'r Fro |
| Nicola Somerville | Tasglu'r Cymoedd |
| Sam Hadley | Network Rail |
| Sian Rees | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |

---

## Nodyn gan y Cadeirydd, Helen Dale

*“Mae'n bleser gennyf gadeirio fy fforwm cyntaf fel Rheolwr Rhanddeiliaid ar gyfer De Ddwyrain Cymru. Roedd hi'n wych croesawu a chlywed gan ein haelodau, sy'n cynyddu'n gyson o ran nifer. Hoffwn ddiolch i'n cyflwynwyr a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am Gontract Gwasanaethau Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, Gweledigaeth TrC ar gyfer 2021/22, Pris Tocynnau yn yr Adferiad, a throsolwg o Gyfnod Rhwystro mis Ionawr fel rhan o raglen drawsnewid Metro De Cymru. Yn ogystal â chlywed am y diweddariadau pwysig hyn, cafodd yr aelodau gyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth drwy sesiwn holi ac ateb gan Banel Network Rail, a gweithdy rhyngweithiol ar Adeiladu Ymddiriedaeth Teithwyr mewn Trafnidiaeth Gyhoeddus ar ôl COVID. Hoffwn ddiolch i'r aelodau am eu cyfraniadau drwy gydol y sesiwn.”*

---

## Agenda

### 1. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Helen Dale aelodau'r fforwm i drydydd cyfarfod Fforwm Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru. Cyflwynodd Helen fformat y cyfarfod, gan gynnwys defnyddio Mentimeter, ac atgoffodd bawb o'r negeseuon Teithio'n Saffach a rheolau Llywodraeth Cymru sydd ar waith o hyd ledled Cymru mewn perthynas â phandemig Covid-19.

## 2. Uchafbwyntiau TrC a'r dull newydd o weithredu ar gyfer rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

Rhoddodd Alexia Course, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Trafnidiaeth (TrC), drosolwg o rai o'r llwyddiannau dros y ddwy flynedd diwethaf. Rhoddodd Alexia'r wybodaeth ddiweddaraf am lwyddiannau allweddol, cerbydau newydd, gwelliannau i wasanaethau cwsmeriaid ac agor Gorsaf Bow Street ar Reilffordd y Cambrian yn ddiweddar, rhwng gorsafoedd rheilffordd y Borth ac Aberystwyth. Roedd y cyflwyniad byr hefyd yn trafod perchnogaeth a thrawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd ers mis Awst 2020, yn ogystal â strwythur a chontract sefydliadol newydd TrC gyda Llywodraeth Cymru.

## 3. Gweledigaeth TrC ar gyfer 2021/22

Rhoddodd David O'Leary, Cyfarwyddwr Masnachol a Phrofiad y Cwsmer (TrC), drosolwg o'r newidiadau a phwysigrwydd trafnidiaeth aml-ddull ar gyfer y dyfodol. Trafododd David y cyfrifoldebau a roddwyd i TrC gan Lywodraeth Cymru a sut mae'r rhain yn ffurfio amcanion strategol, cynllun busnes, strategaeth drafnidiaeth a chynllun cyflawni TrC ar gyfer y flwyddyn. Bydd gwaith yn y dyfodol yn dod â rhanddeiliaid at ei gilydd i greu system drafnidiaeth integredig ac aml-ddull ar gyfer Cymru. Gwahoddir aelodau'r Fforwm hefyd i fynegi eu barn.

Gofynnodd Marcus Lloyd a fyddai cyfrifoldebau Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â ffyrdd yn cael eu cyfyngu i gefnffyrdd neu a oedd cynlluniau i edrych ar rwydwaith Ffyrdd Strategol Awdurdodau Lleol (ALl) hefyd. Awgrymodd David mai ar y rhwydweithiau cefnffyrdd yr oedd yn edrych ar hyn o bryd ond gallai gynnwys rhwydweithiau strategol yr ALl pe bai'r holl bartneriaid yn penderfynu mai dyna y maent am ei wneud. Eglurodd David fod TrC yn awyddus i gefnogi cynlluniau'r awdurdodau lleol ac y byddai'n fodlon cael y sgwrs honno gyda'r awdurdodau.

Holodd David Beer, Uwch Reolwr Cymru, Transport Focus, am ddatganoli'r rheilffyrdd yn llawn i Lywodraeth Cymru. Awgrymodd David O'Leary ei fod yn faes agenda a oedd yn bwysig iawn yn wleidyddol, ac mae TrC yn awyddus i weld cymaint o integreiddio â phosibl ar y rhwydwaith trafnidiaeth. Yn yr un modd, eglurodd David O'Leary fod angen i Gymru integreiddio â rhwydwaith rheilffyrdd ehangach y DU. Gorffennodd David O'Leary drwy egluro y byddai TrC yn gwylio gyda diddordeb, ond roedd cyfleoedd yn sicr.

## 4. Pris Tocynnau yn yr Adferiad

Trafododd Jeremy Whitaker y gostyngiad mewn niferoedd gweithredol oherwydd COVID-19 a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar brisiau tocynnau o fis Ionawr 2021 ymlaen. Rhoddodd Jeremy drosolwg o strategaeth ranbarthol gan Network Rail ar newidiadau i brisiau tocynnau wedi'u rheoleiddio, cyfleoedd prisio tactegol ar gyfer byd ôl Covid a datblygu cynnyrch newydd i annog pobl i fynd yn ôl ar y rhwydwaith pan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny.

Gofynnodd Clare Cameron, Swyddog Datblygu Prosiect, Cyngor Caerdydd, a fyddai angen strwythurau prisio mwy ffafriol hefyd mewn ardaloedd lle gall pobl fel arfer fforddio talu mwy ond eu bod hefyd yn gallu defnyddio ceir, a lle'r ydym yn ceisio eu perswadio i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Ymatebodd Jeremy drwy egluro bod prisiau cystadleuol a thaliadau di-drafferth i gyd yn allweddol i'r argraffiadau o brisiau. Fodd bynnag, roedd mater prisiau

ffyrdd hefyd, ac y tu allan i'r tri rhwydwaith metro arfaethedig roedd tocynnau Advance yn ffordd o sicrhau gwerth ar wasanaethau pellter hirach.

## 5. Gweithdy: Meithrin Ymddiriedaeth Teithwyr mewn Trafnidiaeth Gyhoeddus ar ôl COVID

Rhoddodd David Beer, Uwch Reolwr Cymru, Transport Focus, y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil Transport Focus a gwybodaeth am deithio gan deithwyr yn y dyfodol, gan ystyried pandemig Covid-19. Eglurodd David fod Transport Focus wedi bod yn parhau i arolygu teithwyr a bod y canlyniadau yn amlygu rhai o'r heriau, gan gynnwys y canfyddiad o ddiogelwch a glenweithdra ar drafnidiaeth a'r newid mewn agweddau tuag at deithio ar gyfer hamdden a chymudo at ddibenion gwaith/busnes.

Arweiniodd Lewis Brencher, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu (TrC), ymlaen o'r cyflwyniad gan Transport Focus a darparodd ail sesiwn gweithdy yn seiliedig ar adborth mewn fforymau rhanbarthol blaenorol. Tynnwyd sylw at dair thema allweddol gan aelodau'r fforwm yn ystod y fforwm diwethaf. Edrychodd y sesiwn ar y themâu hyn yn fwy manwl ac ar Sense Maker fel arf arolygu. Eglurodd Lewis fod croeso bob amser i sylwadau pellach ac y gellir cysylltu ag ef drwy lewis.brencher@tfw.wales

Thema 1: Deall **ofn** a'r camau ymarferol y gallwn eu cymryd i leihau hyn

Thema 2: Edrych ar gynlluniau **prisiau** posibl a beth allai fod yn addas ar gyfer anghenion teithio yn y dyfodol

Thema 3: Edrych ar **hyblygrwydd**; beth yw'r 'normal newydd' a sut gall trafnidiaeth addasu i gyd-fynd â hynny

Roedd y trafodaethau yn y grwpiau bach yn cynnwys:

- "Bydd y ffordd y bydd teithwyr yn defnyddio'r rheilffordd yn y dyfodol yn newid, a bydd llawer mwy yn gweithio gartref. Bydd tueddiadau teithwyr o ran sut maen nhw'n dymuno teithio yn newid. Mwy o ofod cymdeithasol."
- "Sut ydych chi'n cyrraedd y bobl nad ydynt yn teithio ac nad ydynt yn bwriadu teithio? Mae annog pobl nad ydynt yn teithio yn allweddol. Sut gallwn ni hyrwyddo Cymru a thrafnidiaeth gyhoeddus law yn llaw â'r llywodraeth?"
- "Mae'n dod allan yn yr ymchwil y bydd glanweithdra yn ffactor mawr. Bydd pacedi creision neu sbwriel yn tanseilio teimladau pobl o lanweithdra. Mae hen drenau 'Pacer' yn ei gwneud hi'n anodd newid yr argraffiadau o lanweithdra, felly hefyd fysiau. Rhestr ar y trenau i ddweud pa bryd y cafodd ei lanhau ddiwethaf neu bresenoldeb dangosydd, gan nad oes modd glanhau trenau pan fydd pobl yn eu defnyddio."
- "Mae angen canolbwyntio ar oedolion ifanc gan ddechrau gyda chynlluniau i'w cael i symud oddi wrth geir ac at deithio mwy integredig."
- "Mae angen i'r strwythur prisiau fod yn deg ar draws Cymru a'r Gororau."

Bydd adborth y gweithdai yn cael ei gasglu ynghyd mewn cyfres ehangach o ymgynghoriadau y mae TrC yn eu cynnal ar draws y bensaernïaeth gynghori ac fel rhan o'i arolwg SenseMaker cyhoeddus. Mae hyn yn sail i ymgyrch newydd, sy'n ceisio annog defnyddwyr i ddychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus.

## 6. Sesiwn Holi ac Ateb Panel Network Rail

Gwahoddodd Tracey Messner, Rheolwr Materion Cyhoeddus, Network Rail, gwestiynau ac adborth ar ddatblygiad y rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau a gofynnodd i aelodau'r panel roi eu barn am Network Rail a sut y gallai wella gwasanaethau ar gyfer De Ddwyrain Cymru.

Gofynnodd Lewis Brencher i aelodau'r panel pa gyfleoedd maen nhw wedi'u nodi yn sgil trosglwyddo asedau Llinellau Craidd y Cymoedd. Awgrymodd James Jackson, Cyfarwyddwr Rhaglen y Diwydiant, Network Rail, fod y trosglwyddiad yn hynod bwysig i Network Rail, a'i fod wedi trefnu cytundeb meincnodi i rannu gwybodaeth am gyfraddau uned, contractwyr a darpariaeth Amey. Roedd Network Rail hefyd yn edrych ymlaen at y broses trydaneiddio clyfar, drwy ddefnyddio cerbydau addas a fyddai'n ateb cost-effeithiol iawn i drydaneiddio. Awgrymodd Andy Scogings, Pennaeth Cynllunio Strategol, Network Rail, ei bod yn ddyletswydd arnom i gyd weithio gyda'n gilydd i wella ansawdd y gwasanaeth i'r teithiwr.

Awgrymodd David Beer fod eu hymchwil yn dangos bod amseroedd teithio is a gorsafoedd agosach yn flaenoriaethau i gwsmeriaid. Gofynnodd David beth oedd y cynllun i wella amseroedd teithio a sefydlu gorsafoedd newydd, a beth y gellir ei wneud i leihau'r amser y mae'n ei gymryd i roi'r gwelliannau hynny ar waith. Awgrymodd Andy Scogings fod llawer o waith yn mynd rhagddo i uwchraddio llinellau arafach a buddsoddi ynddynt, a gwaith gyda TrC i gynyddu gwasanaethau ar draws ffin Gogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr, gan ddarparu gwasanaethau gwell i Lerpwl a Manceinion. Awgrymodd James Jackson y byddai gwaith i egluro perchnogaeth achosion busnes hefyd yn helpu i gwtogi amserlenni.

Dywedodd Clare Cameron fod angen cyflawni gwelliannau cyfalaf sylweddol mewn da bryd, mewn perthynas â pharcio a theithio a phwyntiau gwefru cerbydau trydan y mae angen caniatâd arnynt er mwyn eu darparu ar dir Network Rail. Awgrymodd James Jackson fod hyn yn rhywbeth y gall ef ei godi gyda Clare yn uniongyrchol oherwydd efallai y bydd angen ymdrin â phob cynllun mewn ffordd wahanol. Gofynnodd Clare hefyd pryd y byddai Network Rail yn symud o GRIP i PACE. Awgrymodd James nad un newid penodol sydd dan sylw gan mai newid diwylliannol yw hyn i raddau helaeth, a fydd yn caniatáu i brosiectau gael eu cyflawni'n gyflymach ac yn fwy diogel.

Gofynnodd Adrian Field, Cyfarwyddwr Gweithredol, Caerdydd, yn y sgwrs am eglurder rhwng cyfrifoldebau TrC a Network Rail o ran y pontydd rheilffordd yng nghanol dinas Caerdydd, gan egluro yr hoffent weld y pontydd rheilffordd yn cael eu gwella o ran eu golwg a'u naws. Dywedodd Lewis Brencher ei fod yn awyddus i wneud rhywfaint o waith yn y maes hwn, a'i fod yn gyfle gwych.

Gofynnodd Clive Campbell, Rheolwr Cludiant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, sut y gallai Network Rail sicrhau bod buddsoddiadau mewn rheilffyrdd a newidiadau i wasanaethau yn cael eu hystyried yng nghyd-destun rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na chanolbwyntio ar dduliau teithio unigol. Fel rhan o'r gweithgarwch cynllunio strategol cenedlaethol, eglurodd Andrew Scogings fod Network Rail yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid a TrC i ystyried 'teithiau o'r naill ben i'r llall' ac integreiddio â dulliau eraill.

Gofynnodd Alex Clarke, Swyddog Gwybodaeth Trafnidiaeth i Deithwyr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, beth allai TrC, Rheilffyrdd TrC a Network Rail ei wneud i helpu rhanddeiliaid a'r cyhoedd i ddeall cyfrifoldebau pob sefydliad. Dywedodd James Jackson ei fod yn awyddus i'r sector trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru gael wyneb cyhoeddus mwy 'cydlynol'.

## 7. Cyfnod Rhwystro mis Ionawr

Cyflwynodd Rhys Giles, Rheolwr y Rhaglen (TrC), y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn ym mis Ionawr 2021, wrth weithio ar y cyd â Network Rail. Rhoddodd Rhys ddiweddariad

ar y pecyn o waith ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd yn ystod y cyfnod 4 wythnos. Roedd y cyflwyniad yn nodi heriau a llwyddiannau'r cyfnod rhwystro.

### 8. Unrhyw fater arall

Daeth Helen Dale â'r fforwm i ben drwy ddweud bod croeso i aelodau'r panel gysylltu â thîm De Ddwyrain Cymru ynghylch unrhyw eitemau a fyddai'n berthnasol yn eu barn nhw yn y dyfodol, a gofynnodd iddynt lenwi ffurflen adborth ddewisol.

## Camau Gweithredu

Codwyd y camau gweithredu isod yn ystod y fforwm a rhoddir sylw iddynt cyn y Fforwm Rhanbarthol nesaf lle bo hynny'n bosibl.

| Cam gweithredu | Beth fydd yn cael ei wneud? |
|---|---|
| Gofynnodd Andy Johns, Is-bennaeth, Coleg y Cymoedd, i'r cyflwyniad ar y cyfnod rhwystro gael ei rannu â Choleg y Cymoedd ar gyfer eu myfyrwyr cynnal a chadw traciau. | Mae Kelsey Barcenilla wedi cysylltu i rannu sleidiau a rhoi cyfle i'r coleg ymgysylltu ymhellach a chynnig cyflwyniad i'r myfyrwyr. |

## Uchafbwyntiau sgwrs ddigidol y fforwm

Dyma oedd uchafbwyntiau'r sgwrs o fewn swyddogaeth sgwrsio'r Fforwm:

- "Oni fyddai angen strwythurau tocynnau mwy ffafriol hefyd mewn ardaloedd eraill lle gallent fod â'r gallu i dalu mwy, ond sydd hefyd â'r gallu i ddefnyddio eu ceir (ac yn fwy tebygol o ddewis gwneud hynny) lle rydym yn ceisio eu perswadio i newid dull i drafnidiaeth gyhoeddus?"
- "Mae Dogfen Rheilffyrdd Strategol (CCR) newydd gael ei chymeradwyo gan y Cabinet Rhanbarthol ar 15fed Chwefror"
- "Wrth symud ymlaen, bydd yn mynd yn ddryslyd deall cyfrifoldebau Network Rail, Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC a TrC corfforaethol. Beth allwch chi ei wneud fel bod modd i randdeiliaid a'r cyhoedd ddeall pwy sy'n gwneud beth?"
- "Mae rhywfaint o waith calonogol iawn yn mynd rhagddo o ran gweithio gyda'r sector addysg i sicrhau bod ein cymunedau'n gallu elwa o'r cyfleoedd gwaith sy'n gysylltiedig â buddsoddi."
- "Rydyn ni'n awyddus iawn i weld golwg a naws y pontydd rheilffordd yng nghanol dinas Caerdydd yn gwella – maen nhw'n rhan o argraffiadau cyntaf pobl o'r ddinas ac mae gwir angen tynnu rhai o'r hen hysbysebion sydd arnyn nhw."

## Y Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol Nesaf

Mae Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol nesaf De Ddwyrain Cymru wedi'i drefnu ar gyfer 19 Mai 2021. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar-lein ar lwyfan Microsoft Teams rhwng 10:00 a 12:30.